



At: Aelodau Cyngor Ymgynghorol
Sefydlog ar Addysg Grefyddol
(CYSAG)

Dyddiad: Dydd Iau, 21 Mehefin
2012

Deialu 01824 712568
Union:

e-bost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Fe'ch gwahoddir i ddod i gyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR
ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** am **2.00 pm, DYDD GWENER, 29 MEHEFIN 2012**
yn **COUNCIL CHAMBER, RUSSELL HOUSE, RHYL.**

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD

MYFYRDOD TAWEL

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n
rhagfarnu unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2012 (copi'n amgaeedig) ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi.

5 DADANSODDI ADRODDIADAU ARCHWILIO

Ystyried adroddiad gan yr Uwch Ymgynghorydd Addysgu AG (copi'n amgaeedig) yn dadansoddi canlyniadau archwiliadau chwe ysgol a ymgymerwyd rhwng Tachwedd 2011 a Mawrth 2012.

6 ADOLYGIADAU MONITRO A CHEFNOGOL

Derbyn adroddiad gan yr Uwch Ymgynghorydd Addysgu AG (copi'n amgaeedig) ar ddarparu Addysg Grefyddol yng nghonsortium ysgolion Ysgol Uwchradd Dinbych.

7 CYMDEITHAS CYSAG CYMRU

(a) Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2012 yng Ngheredigion (copi'n amgaeedig)

(b) Ystyried yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar fater cynrychiolaeth gan Gymdeithas Ddyneiddwyr Prydain ar GYSAGau

8 GWEFAN MOODLE

Derbyn adroddiad llafar gan yr Uwch Ymgynghorydd Addysgu AG ar ddefnyddio gwefan Moodle i ysgolion gyrchu adnoddau AG.

9 CYSTADLEUAETH LLYTHRENNEDD/RHIFEDD MEWN AG I YSGOLION

Derbyn diweddariad llafar gan yr Uwch Ymgynghorydd Addysgu AG ar y gystadleuaeth i ysgolion gynhyrchu adnoddau a fydd yn cynnwys Llythrennedd a Rhifedd mewn Addysg Grefyddol Cyfnod Allweddol 2 a/neu Gyfnod Allweddol 3.

10 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych am 10.00a.m. ar ddydd Gwener
5 Hydref 2012 yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun.

RHAN 2 – DIM EITEMAU

AELODAETH

Cynghorwyr yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Alice Jones
Margaret McCarroll
Arwel Roberts

Joe Welch
Dewi Owens
Julian Thompson-Hill

Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol

Y Parch. B H Jones
Y Parch. Martin Evans-Jones
Mary Ludenbach
Mrs C Thomas

Mrs E Wright
Mr R Elms
S Harris
Is-Gapten Sian Radford

Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon

Ms M Bradshaw
Mrs C Harmsworth

Mrs Maureen Phillips

Aelodau Cyfetholedig

T. Ap Siôn
Mr G Craigen

Mrs M B Lloyd

COPIAU AT:

Bob Cynghorydd er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR GYFER ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ffordd Plas Nant, Prestatyn, ar ddydd Gwener 24 Chwefror 2012 am 2.00pm

YN BRESENNOL

Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Y Cynghorwyr Christine Evans, Gwilym Evans a Morfudd Jones
Sylwedydd: Y Cynghorydd Meirick Davies

Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol

Mrs. Sylvia Harris, Y Parchedig Brian H. Jones, Ms. Mary Ludenbach, Lt. Sian Radford a Mrs. Elaine Wright

Yn cynrychioli Cymdeithasau'r Athrawon

Mrs. Maxine Bradshaw (Cadeirydd) ac Alison Ballantyne (dirprwy ar ran Maureen Phillips)

Aelod Cyfetholedig

Mrs. M.B. Lloyd

HEFYD YN BRESENNOL

Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG (PL) a Chlerc CYSAG (KEJ)
Mynychodd y Swyddog Perfformiad Effeithliolrwydd Ysgolion Uwchradd (JM) ar gyfer Eitem Rhif 9.

MYFYRDOD TAWEL

Cychwynnodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrddod tawel.

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Ann Davies, Glyn Jones a Jane Yorke ynghyd â'r Parchedig Martin Evans-Jones, Mr. Rodney Elms, Mr. Gavin Craigen a Ms. Tania Ap Sion.

2 DATGAN BUDDIANNAU

Ni wnaed unrhyw ddatganiad o fuddiannau personol na buddiannau'n rhagfarnu unrhyw beth i'w drafod.

3 MATERION BRYD FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwriadu cynnwys er trafodaeth y mater canlynol a oedd angen sylw bryd –

Enwebiad i Bwyllgor Gweithredol Cymdeithas CYSAG Cymru.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2011 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Materion yn codi -

Tudalen 3 – Eitem 7 – Gohebiaeth gan Gymdeithas y Dyneiddwyr – dywedodd y Cynghorydd Christine Evans nad oedd ei barn hi ar y mater wedi ei gynnwys yn y cofnodion, a holodd ynglŷn â chanlyniad cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru yn ystod yr hwn yr oedd y cais am aelodaeth wedi ei ystyried. Cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG bod y cofnod ond wedi cynnwys crynodeb byr oherwydd argymhelliad CCYSAGC i oedi ystyried y mater tan eu cyfarfod ym mis Tachwedd 2011. Dywedodd, er bod y mater wedi ei drafod yn y cyfarfod hwnnw, nad oedd penderfyniad wedi ei wneud ynglŷn â sut i symud ymlaen, a theimlai y byddai'n annoeth trafod y mater ymhellach nes byddai CCYSAGC wedi rhoi barn glir. Roedd y Cynghorydd Evans yn bryderus bod y mater wedi ei ohirio ymhellach a chytunodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG godi'r mater eto yng nghyfarfod nesaf CCYSAGC.

Tudalen 7 – Eitem Rhif 12 – Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – tra'r oedd y cofnod, wrth gwrs, yn gywir, nodwyd bod dyddiad y cyfarfod nesaf wedi ei newid o 13 Chwefror i 24 Chwefror 2012.

Gofynnodd Alison Ballantyne am wybodaeth bellach ar Ymddiriedolaeth Elusenol Archesgob Rice Jones yr oedd cyfeiriad ato yn y cofnodion. Cytunodd Mrs Sylvia Harris roddi manylion pellach i Ms. Ballantyne y tu allan i'r cyfarfod.

PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2011 fel cofnod cywir.

5 DADANSODDI ADRODDIADAU ARCHWILIO

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG (UYD:AG) adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn dadansoddi canlyniadau archwiliad diweddar Estyn mewn perthynas â'r ddarpariaeth AG yn Ysgol Tremeirchion ym mis Tachwedd 2011. Archwiliwyd yr ysgol dan Fframwaith newydd Estyn.

Arweiniodd yr UYD:AG yr aelodau trwy'r adroddiad byr a nododd yr aelodau y cyfeiriadau cadarnhaol at AG ac nad oedd unrhyw sylwadau negyddol wedi eu derbyn. Roedd yr Adroddiadau Monitro rheolaidd a ddeilliodd o ymweliadau'r UYD:AG yn darparu data mwy ystyrlon i'r aelodau ei ystyried yng ngoleuni'r cyfeiriadau byr a ddarparwyd gan Estyn dan y fframwaith adrodd newydd. Atgoffwyd yr aelodau bod adroddiad ar Fframwaith newydd Estyn wedi ei gynnwys ar raglen cyfarfod heddiw. Cadarnhaodd y Cadeirydd bod CYSAG yn ffodus iawn yn derbyn adroddiadau monitro rheolaidd gan yr UYD:AG ar gyfer grwpiau consortia ysgolion a chymerodd y cyfle i ddiolch iddo am ei waith caled yn hyn o beth.

Anogodd y Cyngorydd Morfudd Jones yr aelodau i ddarllen yr adroddiad archwilio llawn ar gyfer yr ysgol a oedd yn rhoi amrywiol elfennau'r archwiliad mewn cyddestun a chytunodd yr UYD:AG roddi cyswllt i wefan Estyn mewn adroddiadau i CYSAG yn y dyfodol i hwyluso hyn.

PENDERFYNWYD –

- (a) *derbyn a chydnabod yr adroddiad;*
- (b) *anfon llythyr at Ysgol Tremeirchion yn hysbysu'r ysgol bod ei Hadroddiad Archwilio wedi ei ystyried a'u llongyfarch ar y nodweddion da a nodwyd, a*
- (c) *gofyn i'r Awdurdod Lleol ddsbarthu'r llythyr uchod.*

6 CANLYNIADAU ARHOLIADAU 2011

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG (UYD:AG) adroddiad (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) yn nodi canlyniadau arholiadau Astudiaethau Crefyddol TGAU a Lefel A ar gyfer y flwyddyn 2010 a 2011 gyda dadansoddiad o'r gwahaniaethau a'r tueddiadau, i'r aelodau eu hadolygu.

Arweiniodd yr UYD:AG yr aelodau trwy'r canlyniadau'n fanwl ac adroddod ar gymariaethau rhwng canlyniadau arholiad 2011 a 2010 ar gyfer pob ysgol. Cyfeiriodd yn benodol at y canlynol –

Canlyniadau TGAU – Astudiaethau Crefyddol 2011 – OII – Cwrs Llawn

- Ysgol Uwchradd Dinbych – gwelliant o 10.4% ar y flwyddyn flaenorol ar gyfer ymgeiswyr yn cael A*-C a oedd 4.9% uwchben y cyfartaledd cenedlaethol.
- Glan Clwyd – gwelliant o 31.8% ar y flwyddyn flaenorol ar gyfer ymgeiswyr yn cael A*-C a oedd 8.9% uwchben y cyfartaledd cenedlaethol
- Ysgol Uwchradd Prestatyn - gwelliant o 11% ar y flwyddyn flaenorol ar gyfer ymgeiswyr yn cael A*-C a oedd 16.8% uwchben y cyfartaledd cenedlaethol.
- Dinas Bran - gwelliant o 37.2% ar y flwyddyn flaenorol ar gyfer ymgeiswyr yn cael A*-C a oedd 14.3% uwchben y cyfartaledd cenedlaethol.
- Brynhyfryd – gwelliant o 5.9% ar y flwyddyn flaenorol ar gyfer ymgeiswyr yn cael A*-C a oedd 14% uwchben y cyfartaledd cenedlaethol.
- Y Rhyl – wedi cyflwyno 88.9 o ymgeiswyr (dim y flwyddyn flaenorol) a oedd yn cyfateb i welliant o 88.9% ar y flwyddyn flaenorol ar gyfer ymgeiswyr yn cael A*-C a oedd 16% uwchben y cyfartaledd cenedlaethol.
- Bendigaid Edward Jones – gwelliant o 0.9% ar y flwyddyn flaenorol ar gyfer ymgeiswyr yn cael A*-C a oedd 19.7% islaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

- Santes Ffrewi - gwelliant o 5.5% ar y flwyddyn flaenorol ar gyfer ymgeiswyr yn cael A*-C a oedd 27.1% uwchben y cyfartaledd cenedlaethol.

Roedd y canlyniadau o ben i ben yn gadarnhaol gyda Sir Ddinbych yn cyflawni 12% uwchben y cyfartaledd cenedlaethol a gwelliant o 11.1% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Canlyniadau TGAU – Astudiaethau Crefyddol 2011 – OII – Cwrs Byr

Cafwyd canlyniadau cymysg i'r ysgolion fel a ganlyn -

- Dinbych – roedd 68 yn fwy o ymgeiswyr na'r flwyddyn flaenorol yn rhoi gwelliant o 3.1% i'r rhai a gawsai A* – C ond 28.9% islaw'r cyfartaledd cenedlaethol ac roedd llawer o waith yn cael ei wneud i wella'r canlyniadau
- Prestatyn – 45 yn fwy o ymgeiswyr na'r flwyddyn flaenorol yn rhoi gwelliant o 2.2% i'r rhai a gawsai A* – C a oedd 55.8% islaw'r cyfartaledd cenedlaethol
- Santes Ffrewi – 2 ymgeisydd o gymharu â 0 y flwyddyn flaenorol a gawsai A* – C a oedd 42% uwchben y cyfartaledd cenedlaethol

Dangosodd y canlyniadau o ben i ben ddirywiad o 15.8% yng nghanlyniadau Sir Ddinbych o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a oedd 35% islaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer 2011.

TGA Lefel A – Astudiaethau Crefyddol 2011 – OII

Roedd pob ysgol wedi gwella perfformiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol -

- Dinbych – dangos gwelliant o 4.3% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ar gyfer ymgeiswyr yn cael A*-C a oedd 32.6% islaw'r cyfartaledd cenedlaethol
- Glan Clwyd – 3 ymgeisydd o gymharu â 0 y flwyddyn flaenorol yn dangos gwelliant o 100% ar gyfer ymgeiswyr yn cael A* – C a oedd 22% uwchben y cyfartaledd cenedlaethol
- Brynhyfryd – dangos gwelliant o 20% ar gyfer 4 ymgeisydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ar gyfer rhai yn cael A*-C, gan arwain at welliant o 16.8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a 22% uwchben y cyfartaledd cenedlaethol
- Santes Ffrewi – dangos bod 100% y disgwylion a safodd yr arholiad wedi cael A*-C gan arwain at welliant o 16.8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a 22% uwchben y cyfartaledd cenedlaethol.

Dangosodd y canlyniadau, o ben i ben, welliant o 11.6% ar gyfer Sir Ddinbych o gymharu â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol a oedd 6.4% islaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Wrth orffen ei grynodedb o'r canlyniadau arholiad tynnodd y UYD:AG sylw'r aelodau at gymhariaeth o ganlyniadau ysgolion Sir Ddinbych gyda'r cyfartaledd cenedlaethol dros y cyfnod 2004 i 2011. Esboniodd hefyd nad oedd yr arfer flaenorol o adrodd ar wahân ar berfformiad bechgyn a merched wedi bod yn bosibl eleni er y gobeithid y gellid gwahanu'r data yn y dyfodol.

Wrth ystyried y canlyniadau, cymerodd yr aelodau y cyfle i gael esboniad ar nifer o faterion gyda'r UYD:AG. Esboniwyd nad oedd ymgeiswyr ar gyfer lefel A yn Ysgol Uwchradd y Rhyl nag Ysgol Uwchradd y Bendigaid Edward Jones oherwydd bod darpariaeth chweched dosbarth wedi ei throsglwyddo i Goleg Chweched y Rhyl. O ran y canlyniadau siomedig mewn TGAU yn Ysgol Uwchradd y Bendigaid Edward Jones o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, adroddodd Ms Mary Ludenbach ar y gwelliannau graddol dros nifer o flynyddoedd yn ystod cyfnod anodd i'r ysgol. Roedd yn falch o adrodd bod y rhagolygon yn edrych yn gadarnhaol iawn.

PENDERFYNWYD –

- (a) *Derbyn y data ystadegol a'r crynodeb;*
- (b) *Bod yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG yn trefnu cyfarfodydd gyda'r ysgolion hynny a oedd yn dangos canlyniadau arholiad siomedig i weld pa strategaethau a oedd yn cael eu mabwysiadu er mwyn delio â thanberfformiad a chynnig ei wasanaethau o ran cael gwelliannau, a*
- (c) *Anfon llythyrau llongyfarch at yr ysgolion hynny lle'r oedd y canlyniadau wedi gwella o gymharu â'r llynedd ac uwchben y cyfartaledd cenedlaethol.*

7 CYMDEITHAS CYSAG CYMRU

(Daethpwyd â'r eitem hon ymlaen ar y rhaglen gyda chaniatâd y Cadeirydd)

Adroddodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG (UYD:AG) nad oedd cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru (CCYSAGC) a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2011 yng Nghaerdydd ar gael i'w dosbarthu eto. Yn lle hyn, rhoddodd adroddiad llafar ar y cyfarfod, gan nodi bod tri chyflwyniad wedi eu rhoi a oedd yn canolbwyntio ar thema Cydlyniant Cymunedol. Cyfeiriodd yn benodol at gyflwyniad gan Jared Nolan ar brosiect Cydlyniant Cymunedol gydag Ysgol Gynradd Brynbuga a Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Gwent. Daeth nifer o eitemau dan y rhaglen Cydlyniant Cymunedol ac roedd y prosiect wedi bod y brofiad cadarnhaol i'r rhai a gymerodd ran trwy ddod â phobl at ei gilydd.

Trafododd yr aelodau fanteision cydlyniant cymunedol a sut roedd yn cael ei hyrwyddo mewn ysgolion trwy chwaraeon a gweithgareddau, digwyddiadau a theithiau megis Jamborî a Glan Llyn sy'n annog rhyngweithiad rhwng amrywiol ddisgyblion mewn gwahanol sefyllfaoedd. Adroddodd Ms Mary Ludenbach ar amrywiaeth yn Ysgol Uwchradd y Bendigaid Edward Jones gydag amrywiol ddiwylliannau ac enwadau Cristnogol. Cyfeiriodd Mrs M G Lloyd ar yr amrywiol grefyddau y gellid eu dwyn at ei gilydd ac adroddodd yr UYD:AG ar amcanion Wythnos AG a gynhaliwyd y mis Mawrth blaenorol i annog ysgolion heb fod yn ysgolion eglwys i ddefnyddio Cadeirlan Llanelwy fel adnodd dysgu.

PENDERFYNWYD derbyn a chydabod yr adroddiad llafar ar gyfarfod CCYSAGC ar 24 Tachwedd 2011.

8 CYSTADLEUAETH LLYTHRENNEDD/RHIFEDD MEWN AG AR GYFER YSGOLION

Adroddodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu (UYD:AG) yn llafar ar y posibilrwydd o drefnu cystadleuaeth i ysgolion i gynhyrchu adnoddau a fyddai'n cynnwys Llythrennedd a Rhifedd o fewn Addysg Grefyddol CA2 a/neu CA3. Roedd y syniad hefyd yn cael ei drafod gyda Chonwy a Sir y Fflint ac roedd Conwy wedi cytuno arian gwobr o £200 fel cymhelliant ar gyfer ceisiadau, ac wedi gofyn am gael cynnwys y Cyfnod Sylfaen hefyd. Roedd y syniad yn cynnwys cynnig cynlluniau gwersi pro forma gwag i ysgolion eu cwblhau, gyda'r cynlluniau gwersi yn cael eu beirniadu gan Banel Arfarnu yn cynnwys Ymgynghorydd Llythrennedd o'r Gwasanaethau Cwricwlwm ac aelodau CYSAG. Unwaith y byddant wedi eu harfarnu, gellid rhannu'r ceisiadau gorau gyda'r holl ysgolion fel adnoddau dysgu.

Croesawodd y Cyngor Ymgynghorol syniad y gystadleuaeth i annog cynhyrchu gweithgareddau blaengar ar lythrennedd a rhifedd y gellid eu defnyddio fel adnoddau dysgu a'u rhannu gydag ysgolion eraill, Trafododd yr Aelodau hefyd yr ymgyrch dros lythrennedd a rhifedd mewn ysgolion a oedd yn dod trwy wahanol bynciau, a chydabod defnyddioldeb adnoddau ychwanegol ar gyfer ysgolion wrth ddelio â'r materion hyn. Teimlai'r aelodau y byddai'n ddefnyddiol cydgysylltu'r gystadleuaeth ar draws awdurdodau addysg lleol Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint i annog mwy o geisiadau y gellid eu rhannu gyda'r tair sir. Awgrymodd y Swyddog Pherfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion Uwchradd y gellid doddi'r adnoddau ar wefan Moodle.org, a oedd yn becyn cymunedol ffynhonnell agored ar gyfer dysgu. Cynigiwyd bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd CYSAG yn cael eu penodi i'r Panel Arfarnu i feirniadu'r ceisiadau a dderbyniwyd. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Morfudd Jones, dywedodd yr UYD:AG bod angen ystyried costau cyfieithu'r cynlluniau gwersi er mwyn galluogi cyhoeddi adnoddau cwbl ddwyieithog. Trafododd y pwyllgor y wobr ariannol hefyd, a chytunodd Mrs Sylvia Harris goddi'r posibilrwydd o roddi cyllid grant gydag Ymddiriedolaeth Elusennol Archesgob Rice Jones. Ystyriodd yr aelodau hefyd a ddylid pennu bod angen gwario'r arian ar AG yn benodol, ond teimlid y byddai'n fwy tebygol cael nifer uwch o geisiadau os na bennwyd unrhyw beth yn hynny o beth. O ganlyniad –

PENDERFYNWYD –

- (a) *cefnogi trefnu cystadleuaeth gan yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG ar draws awdurdodau addysg lleol Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint, i ysgolion gynhyrchu adnoddau a fyddai'n cynnwys Llythrennedd a Rhifedd mewn Addysg Grefyddol CA2 a/neu CA3;*
- (b) *penodi'r Cadeirydd, Ms Maxine Bradshaw a'r Is-gadeirydd, Mr R Elms i'r Panel Arfarnu i feirniadu'r ceisiadau yn y gystadleuaeth;*
- (c) *gofyn i Ymddiriedolaeth Elusennol Archesgob Rice Jones am gyllid grant i gefnogi'r gystadleuaeth, a*

(ch) *Peidio pennu unrhyw gyfyngiad ar y wobr ariannol o ran gwario ar Addysg Grefyddol.*

Ar y pwynt hwn, cyfeiriodd Mrs Morwenna Lloyd at nifer o aelodau a oedd wedi gwasanaethu am gyfnod maith a oedd wedi ymddeol o'r CYSAG yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a chytunwyd bod llythyrau o werthfawrogiad yn cael eu hanfon at yr unigolion hynny yn diolch iddynt am eu hymroddiad a'u gwasanaeth gwerthfawr. Codwyd hefyd fater y nifer o seddau gwag ar y CYSAG ac adroddodd yr UYD:AG ar ymdrechion newydd i lenwi'r swyddi hynny.

9 ARCHWILIADAU NEWYDD ESTYN A CHANOLBWYNTIO AR ARFARNU YSGOLION

Rhoddodd y Swyddog Perfformiad Effeithliolrwydd Ysgolion Uwchradd (SPEYU) gyflwyniad i'r aelodau ar fframwaith archwilio newydd Estyn a'r ffocws ar hunan-arfarnu ysgolion. Hysbyswyd yr aelodau o'r canlynol –

- Cyflwyniad y fframwaith archwilio newydd ym Medi 2010 a'r prif newidiadau yn arwain at fframwaith llawer symlach a gostygiad yn y nifer o gwestiynau allweddol (o 7 i 3) yn ôl y rhain yr aseswyd ysgolion
- Ysgolion yn cael rhybudd o bedair wythnos o archwiliad a'r tebygolrwydd y byddai'r cylch chwe blwyddyn yn parhau oni fyddai'r ysgol yn wynebu problemau difrifol
- Roedd hunan-arfarnu nawr yn fater allweddol i ysgolion, gydag Estyn eisiau gweld bod ysgolion yn gyrrff sy'n gwella eu hunain, a allai adnabod cryfderau a gwendidau a'r gallu i wella
- Byddai tîm archwilio llai yn ymweld ag ysgolion gyda phrosesau seiliedig ar ganlyniadau a mwy o bwyslais ar ddefnyddio data perfformiad; talwyd mwy o sylw i les disgyblion a gwerthoedd Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol, Diwylliannol yn y fframwaith hwnnw
- Roedd adroddiadau archwilio yn llawer byrrach ac ar lefel yr oedd pobl leyg yn ei deall gyda'r pwyslais ar feithrin gallu i wella
- Ymgwymerodd Estyn â phroses archwiliadol a roedd yn disgwyl gwell systemau sicrhau ansawdd mewn ysgolion ac arfarniadau yr oedd angen iddynt gael eu gyrru gan ganlyniadau
- Barnwyd ar dri Chwestiwn Allweddol – Cwestiwn Allweddol 1 Pa mor dda yw'r canlyniadau; Cwestiwn Allweddol 2 Pa mor dda yw'r Ddarpariaeth a Chwestiwn Allweddol 3 Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth?
- Rhoddwyd diffiniadau o'r graddfeydd ar gyfer ysgolion hefyd
- Roedd Ysgol Emmanuel ac Ysgol Melyd ill dwy wedi derbyn adroddiadau archwilio eithriadol ac roedd enghreifftiau o'u gwaith wedi ei ddod ar wefan Estyn
- Lle'r oedd ysgolion yn cael eu graddio fel rhai derbynol, byddai'r awdurdod addysg lleol yn monitro cynnydd, ac os nad oedd gwelliant mewn 12 mis, byddai Estyn yn talu ymweliad monitro. Os na chafwyd gwelliant, byddai'r ysgol yn cael ei hailraddio fel un annigonol gan arwain at ymweliadau mwy rheolaidd gan Estyn a chefnogaeth bellach gan yr awdurdod addysg lleol.

O ran Addysg Grefyddol, nid oedd y rhan fwyaf o Adrannau AG yn cael eu harchwilio gan fod Estyn yn targedu archwiliadau lle'r oedd meysydd o wendid. Er enghraifft, roedd y SPEYU yn falch o adrodd bod Adran AG Ysgol Uwchradd Prestatyn wedi ei graddio fel un eithriadol ac felly nid oedd angen archwiliad. Ystyriwyd gwerthoedd Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol dan Gwestiwn Allweddol 3 ond unwaith eto nid oedd yn cael ei archwilio bob tro oni fo wedi ei adnabod fel maes gwendid trwy'r broses arfarnu. Yn gyffredinol, roedd archwiliad Sir Ddinbych wedi bod yn dda iawn – roedd un ysgol yn cael ei monitro gan yr awdurdod addysg lleol ond roedd yr holl ysgolion a archwiliwyd hyd yma wedi bod yn dda a chan Sir Ddinbych oedd y proffil gorau yng Ngogledd Cymru ac un o'r gorau yng Nghymru hyd yma. Byddai darlun cliriach yn ymddangos pan fyddai'r holl ysgolion wedi bod trwy'r broses archwilio.

Trafododd yr aelodau'r fframwaith newydd a'r broses hunan-arfarnu ac ymatebodd y SPEYU i gwestiynau a sylwadau fel a ganlyn –

- I sicrhau cysondeb agwedd tuag at hunan-arfarnu, roedd ysgolion wedi derbyn disgrifyddion (a ddatblygwyd gan Cynnal) ac roedd Estyn hefyd wedi cynhyrchu canllawiau i ysgolion
- Roedd dulliau o asesu lles disgyblion yn cynnwys cwblhau holiadur arlein; cyfweiliadau, ynghyd â lefelau presenoldeb a chyfranogiad mewn gweithgareddau eraill yn yr ysgol megis chwaraeon a chymdeithasau
- Roedd ysgolion yn gyffredinol yn perfformio'n dda mewn AG fel pwnc a gwerthoedd Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol ond roedd yn bwysig cadw lefel adnoddau i sicrhau nad oedd safonau'n llithro
- Roedd mwy o gyfle i gynnal dysgu lefel A ar gyfer AG a sicrhau nifer hyfyw o ddisgyblion trwy gyfrwng Consortia Chweched y Rhyl
- Roedd angen delio â'r disgyblion hynny a oedd eisiau darpariaeth Babyddol ôl-16 gydag Ysgol Uwchradd y Bendigaidd Edward Jones ac roedd angen defnyddio athrawon yn effeithiol ar gyfer disgyblion a oedd eisiau dilyn y cyrsiau hynny.

Diolchodd y Cadeirydd i'r SPEYU am y cyflwyniad difyr, llawn gwybodaeth a theimlai Mrs Morwena Lloyd y dylid gwahodd ysgol a oedd wedi mynd trwy'r drefn archwilio newydd i gyfarfod y pwyllgor yn y dyfodol i ddweud wrth CYSAG am eu profiad. Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai Cydgysylltydd AG mewn sefyllfa well i siarad â CYSAG ynglŷn â sut roedd arolygwyr yn ystyried AG.

PENDERFYNWYD –

- (a) Derbyn a cydnabod y cyflwyniad gan y Swyddog Perfformiad Effeithliolrwydd Ysgolion Uwchradd, a*
- (b) rhoi gwahoddiad i ysgol a oedd wedi mynd trwy archwiliad gan Estyn dan y fframwaith newydd i fynychu cyfarfod CYSAG yn y dyfodol i drafod eu profiadau a sut roedd yr arolygwyr yn ystyried AG.*

10 **MATER BRYD: ENWEBIAD I BWYLLGOR GWEITHREDOL CCYSAGC**

Dyweddod yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG bod cyfnod y Parchedig Brian H Jones a Rheinallt Thomas at Bwyllgor Gweithredol Cymdeithas CYSAG Cymru yn dod i ben. Roedd CCYSAGC felly eisiau enwebiadau pellach ar gyfer y swyddi hyn.

Yn ystod y drafodaeth, dywedodd y Parchedig Jones bod mwyafrif y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd, a mynegodd yr UYD:AG ddiddordeb mewn cael ei enwebu ar gyfer y swydd. Cynigiwyd gan Mrs. Sylvia Harris ac eiliwyd gan Mrs. Mairwenna Lloyd bod Mr. Philip Lord, Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG yn cael ei enwebu. Cytunodd yr holl aelodau.

PENDERFYNWYD bod Mr. Philip Lord, Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG yn cael ei enwebu gan CYSAG Sir Ddinbych ar gyfer un o'r swyddi gweigion ar Bwyllgor Gweithredol CCYSAGC.

Ar y pwynt hwn, cytunodd Clerc CYSAG gytuno anfon llythyr at yr holl aelodau yn eu hysbysu o ddyddiadau cyfarfodydd CYSAG yn y dyfodol unwaith y byddai amserlen cyfarfodydd y cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod wedi ei chwblhau.

Wrth ddod â'r cyfarfod i ben, diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu. Dywedodd hefyd bod y Cynghorwyr Christine Evans, Gwilym Evans a Morfudd Jones yn mynychu eu cyfarfodydd olaf fel aelodau etholedig a thalodd deyrnged i'w gwasanaeth ar y Cyngor Ymgynghorol a'r cyfraniadau gwerthfawr i'r drafodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.40p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (SACRE) Cyngor Sir Ddinbych		
Dyddiad y Cyfarfod:		29 Mehefin 2012
Eitem ar yr Agenda:	5	Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygiad
<u>Cefndir i'r Adroddiad:</u>		
<p>Mae gan SACRE ddyletswydd statudol i fonitro'r ddarpariaeth AG ac addoli ar y cyd yn yr ysgolion, ac mae wedi hen arfer â chael a dadansoddi adroddiadau Arolygiad Estyn ym mhob cyfarfod.</p>		
<u>Diben yr Adroddiad:</u>		
<p>Rhoi gwybod i'r aelodau am ganlyniadau Adroddiadau Arolygiad Estyn diweddar am ysgolion.</p>		
<u>Argymhellion:</u>		
<ul style="list-style-type: none">▪ Derbyn yr adroddiad▪ Anfon llythyr at yr holl ysgolion gan roi gwybod iddynt fod eu Hadroddiad Arolygiad wedi'i ystyried, eu llongyfarch am y nodweddion da a nodwyd, a'u hatgoffa o wasanaethau'r Uwch Gynghorwr Dysgu AG a'r Swyddogion Gwella Ysgolion mewn perthynas ag unrhyw feysydd i'w datblygu neu faterion allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy.▪ Gofyn i'r AALl ddsbarthu'r llythyrau i'r ysgolion dan sylw.		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Dadansoddi Adroddiadau Arolygu
SACRE Sir Ddinbych**

29 Mehefin 2012

Arolygwyd o dan Fframwaith newydd Estyn

Ysgol	Dyddiadau	Arolygydd Adrodd
Ysgol Bro Cinmeirch	Tachwedd 2011	Goronwy Morris
<p><i>Mae Ysgol Bro Cinmeirch rhwng Llanrhaeadr a Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch, 3 milltir i ffwrdd o Ddinbych. Mae 69 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 60% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref, ac addysgir yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Cofnodir bod gan 11% o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig, ac mae 3.4% yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim.</i></p>		
Ysgol Pant Pastynog	Tachwedd 2011	Iolo Dafydd
<p><i>Mae Ysgol Pant Pastynog yn gwasanaethu pentrefi Prion, Peniel, Saron a Nantglyn ger Dinbych a'r ardal wledig gyfagos. Ysgol wirfoddol a reolir yw hi, yr Eglwys yng Nghymru. Mae 58 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 7 o ddisgyblion meithrin. Daw 79% o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Mae 11% o'r disgyblion yn dod o gefndir ethnig 'gwyn arall', ac yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid yw'r un o'r disgyblion yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim, ac mae 17.6% o'r disgyblion wedi'u cofrestru fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.</i></p>		
Ysgol Tir Morfa	Rhagfyr 2011	Claire Yardley
<p><i>Ysgol arbennig gymunedol yw Ysgol Tir Morfa yn y Rhyl. Mae'n darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 19 oed. Mae gan y disgyblion ystod eang o anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys anawsterau dysgu cymedrol, difrifol a dwys a lluosog, anhwylderau yn y sbectrwm awtistig ac anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. Mae 133 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae 47% o'r disgyblion yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim. Cymraeg yw iaith gartref 2 o'r disgyblion. Mae naw o'r disgyblion o dan ofal yr awdurdod.</i></p>		
Ysgol Carrog	Ionawr 2012	H. Williams
<p><i>Mae Ysgol Carrog ym mhentref Carrog ger Corwen. Mae 33 o blant meithrin amser llawn a 5 rhan-amser ar y gofrestr, ac mae tua 8% o'r disgyblion yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim. Mae tua 10% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae gan ryw 10% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol.</i></p>		
Ysgol Gynradd Gymunedol Llandrillo	Ionawr 2012	Maldwyn Pryse
<p><i>Yn Ysgol Llandrillo ger Corwen mae 28 o ddisgyblion gan gynnwys un disgybl meithrin rhan-amser. Cymraeg yw prif iaith yr ysgol. Daw 30% o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Daw 7% o gefndiroedd ethnig. Nodwyd bod anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gan 15% o'r disgyblion. Mae cynlluniau i uno'r ysgol ag ysgol leol arall ym mis Medi 2012.</i></p>		
Ysgol Dyffryn Iâl	Mawrth 2012	Goronwy Morris
<p><i>Mae Ysgol Dyffryn Iâl ar ddau safle ym mhentrefi Bryneglwys a Llandegla sydd chwe milltir ar wahân. Ysgol wirfoddol a reolir yw hi, yr Eglwys yng Nghymru. Mae'n ysgol gwbl ddwyieithog. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen ar safle Bryneglwys a disgyblion CA2 yn cael eu haddysg yn safle Llandegla. Mae tuag 20% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae 50 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 11 o ddisgyblion oed meithrin. Mae tua 2% o'r disgyblion yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim. Nodwyd bod anghenion dysgu ychwanegol gan 11 o'r disgyblion, sef 22%.</i></p>		

SYLWADAU CADARNHAOL

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r Canlyniadau?

Lles:

3 Ysgol

- Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu amrywiaeth eang o sgiliau personol a chymdeithasol drwy gymryd rhan mewn ystod eang o gyrff a sefydliadau lleol, gan gynnwys Eglwys Sant Dyfnog a chapeli lleol. (*Ysgol Pant Pastynog*)
- Mae'r ffordd y mae disgyblion yr ysgol yn datblygu i fod yn unigolion cyflawn a hyderus yn nodwedd gref. (*Ysgol Pant Pastynog*)
- Mae addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd da iawn yn rhoi llawer o gyfleoedd i'r disgyblion drafod a myfyrio ynghylch pethau pwysig a allai effeithio ar eu bywydau. (*Ysgol Tir Morfa*)
- Mae llawer o'r disgyblion yn cael lefelau da o wybodaeth, profiad a hyder o gymryd rhan yn y gymuned. Mae'r ffordd y mae'r disgyblion yn yr ysgol yn datblygu i fod yn unigolion cyflawn a hyderus yn nodwedd gref. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Profiadau dysgu:

6 Ysgol

- Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio cwricwlwm sy'n ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Cyfoethogir gwybodaeth y disgyblion am ddinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol iawn drwy gymryd rhan yng nghynllun Comenius gydag ysgolion yn Sbaen, Gwlad Belg, yr Eidal a Sweden. Mae'r ysgol wedi cael ei chydabod am godi llawer iawn o arian i elusennau. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae'r ysgol yn gwneud llawer iawn i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o Fasnach Deg a dinasyddiaeth fyd-eang. Sefydlwyd cyswllt â chartref plant yn Nepal a chafodd y disgyblion gyfle i fynd i gyngerdd gan gôr Watoto, Affrica a gweithdy ar gerddoriaeth Affricanaidd. Manteisia'r ysgol yn llawn ar gefndiroedd teuluoedd disgyblion sy'n dod o wledydd eraill. (*Ysgol Pant Pastynog*)
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i ddeall eu bod yn perthyn i gymuned ehangach y byd. (*Ysgol Tir Morfa*)
- Mae'r cysylltiadau tra chynhyrchiol a fagwyd â chymunedau, gwledydd a diwylliannau eraill yn galluogi'r disgyblion i fod yn fwy ymwybodol o'u rôl fel dinasyddion byd-eang. (*Ysgol Carrog*)

- Mae amrywiaeth eang o glybiau, gweithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau sy'n cyfrannu at ddatblygiad personol y disgyblion. (*Ysgol Llandrillo*)
- Hyrwyddir dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Trefnir nifer o weithgareddau gan y staff a'r disgyblion i hybu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd egwyddorion Masnach Deg a gwybodaeth ac arferion rhyngwladol. (*Ysgol Llandrillo*)
- Mae pob disgybl yn cael at gwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)
- Mae'r ysgol yn llwyddo i hyrwyddo addysg ar gyfer dinasyddiaeth gynaliadwy drwy astudio gwahanol ddiwylliannau. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)

Gofal, cymorth ac arweiniad:

6 Ysgol

- Mae'r profiadau dysgu'n datblygu'r disgyblion yn ysbrydol, yn foesol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol mewn modd effeithiol iawn. Mae sesiynau addoli ar y cyd yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i'r disgyblion fyfyrion'n dawel. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda iawn, ac mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. (*Ysgol Pant Pastynog*)
- Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel a gofalgwr ac mae'n annog y disgyblion i feddwl am eu hanghenion ei gilydd a chefnogi eu cyfoedion. Defnyddia'r staff ymarferion chwarae rôl yn effeithiol i addysgu'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir i'r disgyblion a sut i gadw'n ddiogel. Caiff datblygiad ysbrydol y disgyblion ei feithrin yn briodol drwy addoli ar y cyd ac amseroedd i fyfyrion. (*Ysgol Tir Morfa*)
- Caiff datblygiad personol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion ei gydlynw'n dda a'i wreiddio'n gadarn yn y cwricwlwm ac yng ngweithgareddau bob dydd yr ysgol. (*Ysgol Carrog*)
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel, sy'n helpu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng cywir ac anghywir ac sy'n eu hannog i ysgwyddo cyfrifoldeb am eu camau. (*Ysgol Carrog*)
- Mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo datblygiad ysbrydol y disgyblion yn briodol. (*Ysgol Carrog*)
- Mae'r gwasanaethau ar ddiwedd y dydd yn cyfrannu'n effeithiol tuag at ethos arbennig yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion, a'u hiechyd a'u lles, yn effeithiol. (*Ysgol Llandrillo*)
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda, ac mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol y disgyblion yn nodwedd gref iawn ar yr ysgol. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)

Amgylchedd dysgu:

5 Ysgol

- Hyrwyddir agweddau cadarnhaol iawn at gydraddoldeb ac amrywiaeth drwy weithdrefnau fel casglu ar ran elusennau, agweddau rhyngwladol, themâu cwricwlaidd ac amser cylch. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)
- Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol ac mae'r ethos gweithgar a chefnogol yn datblygu parch ac agweddau cadarnhaol. Mae goddefgarwch a

chydreddoldeb hiliol yn cael sylw priodol yn y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. (*Ysgol Pant Pastynog*)

- Mae pwyslais cryf ar barchu eraill ni waeth beth yw eu gallu, cefndir neu ddiwylliant. (*Ysgol Pant Pastynog*)
- Rhoir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth ac ar greu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch. (*Ysgol Carrog*)
- Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi ac yn dathlu amrywiaeth yn dda drwy ddefnyddio ymweliadau a gweithgareddau penodol mewn addysg grefyddol. (*Ysgol Llandrillo*)
- Mae pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. (*Ysgol Dyffryn Iâl*)

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arwain a'r rheoli?

Arweinyddiaeth

1 Ysgol

- Mae pwyslais cryf ar ddatblygu ymrwymiad y disgyblion i Ddinasyddiaeth Fyd-eang. (*Ysgol Bro Cinmeirch*)

